



Asesu dyluniadau gorsaf bŵer niwclear newydd

Asesiad o ddyluniad generig
Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU
Hitachi-GE Nuclear Energy Limited

Crynodeb o'r penderfyniadau

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd.

Rydym yn helpu pobl a bywyd gwyllt i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effeithiau, gan gynnwys llifogydd, sychder, codiad yn lefel y môr ac erydu arfordirol.

Rydym yn gwella ansawdd ein dŵr, ein tir a'n haer drwy fynd i'r afael â llygredd. Rydym yn gweithio gyda busnesau i'w helpu i gydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol. Mae amgylchedd iach ac amrywiol yn gwella bywydau pobl ac yn cyfrannu at dwf economaidd.

Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Rydym yn gweithio fel rhan o grŵp Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig), ynghyd â gweddill y Llywodraeth, cynghorau lleol, busnesau, grwpiau cymdeithas sifil a chymunedau lleol i greu lle gwell i bobl a bywyd gwyllt.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru. Cawsom ein sefydlu ym mis Ebrill 2013, gan ymgymryd swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n bennaf, yn ogystal â rhai swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n uno'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i sicrhau y gallwn weithredu'n effeithiol ar draws ein hamrywiaeth eang o rolau o gynghorydd, hwylusydd, rheoleiddiwr a dyluniwr, i ymatebwr, partner a gweithredwr os bydd digwyddiad.

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd
Horizon House, Deanery Road,
Bristol BS1 5AH
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk

Mae mwy o gopiâu o'r adroddiad hwn ar gael
o'n catalog cyhoeddiadau:
www.gov.uk/government/publications

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd CF24 0TP

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd 2017

© Cyfoeth Naturiol Cymru 2017

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd
ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru.

neu drwy ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid
Genedlaethol:

Asiantaeth yr Amgylchedd: 0370 850 6506

E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk.

neu

Cyfoeth Naturiol Cymru: 0300 065 3000

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

Cynnwys

Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
Gorsafoedd pŵer niwclear newydd - safbwynt y llywodraeth	4
Rheoleiddio gorsafoedd pŵer niwclear	4
Asesiad Dyluniad Generig	5
Dyluniad Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	6
Ein hasesiad	7
Ein hymgyngoriad	7
Ein penderfyniad ar ôl yr ymgynghoriad	8
Y Camau Nesaf	8
Trwyddedau amgylcheddol	8
Trwydded safle niwclear	9
Caniatâd cynllunio	9
Canfyddiadau Asesu	9
Cyfeiriadau	11

Cyflwyniad

Mae gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn rhan bwysig o gynlluniau'r llywodraeth ar gyfer creu trydan carbon isel diogel. Mae rheoleiddwyr yn craffu ar ddyluniadau gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn drwyadl, gan sicrhau bod pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu'n gywir.

Bu Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar eu hasesiad dylunio generig o orsaf bŵer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU rhwng 12 Rhagfyr a 3 Mawrth 2017. Dyma grynodedb o'n dogfen benderfynu derfynol, ar ôl ystyried yr ymatebion rydym wedi'u derbyn i'n hymgynghoriad.

Ein canfyddiad yw y byddai agweddau ar y dyluniad yn dderbyniol ac rydym yn cyflwyno datganiad o dderbynioldeb dyluniad ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd fel bod yr Asesiad Dyluniad Generig yn gymwys yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyfeiriad at 'ni', 'ein' neu dermau tebyg drwy gydol y ddogfen yn cyfeirio at Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, oni nodir yn wahanol. Yn yr Asesiad Dyluniad Generig, lle cyfeirir at ddogfennau Asiantaeth yr Amgylchedd, dylai'r darllenwr dybio bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn dogfennau fel ei rai ef ac wedi'u mabwysiadu.

Mae Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd (Hitachi-GE), prif ddarparwr technoleg niwclear, wedi datblygu peiriant Adweithydd Dŵr Berw Uwch ac wedi'i ddefnyddio yn Japan. Cyflwynodd ddyluniad Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU i reoleiddwyr niwclear y DU (Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru) ar gyfer asesiad dylunio generig.

Yr asesiad dylunio generig yw'r broses sy'n ein caniatáu i ddechrau craffu ar ddyluniadau gorsafoedd pŵer niwclear newydd ymhell cyn i safleoedd penodol gael eu nodi a dechrau adeiladu. Golyga hyn y gallwn nodi unrhyw broblemau dylunio posib yn gynnar a gofyn i'r cwmni sy'n dylunio'r adweithydd i fynd i'r afael â hwy. Mae hyn yn helpu i osgoi unrhyw newidiadau drud a thrafferthus yn ystod y cyfnod adeiladu.

Gorsafoedd pŵer niwclear newydd - safbwynt y llywodraeth

Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu ei hymrwymiad i ddatblygiadau niwclear newydd yn y DU. Mae'n nodi y bydd pŵer niwclear, ynghyd ag ynni nwy ac adnewyddiadau, megis pŵer gwynt a solar, yn helpu i fodloni anghenion ynni'r wlad yn y dyfodol. Bydd hefyd yn bodloni ei hymrwymiad i leihau allyriadau carbon. Fel rhan o ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd, mae wedi gofyn i reoleiddwyr niwclear asesu diogelwch, diogeliad ac effeithiau amgylcheddol dyluniadau adweithyddion newydd cyn iddynt gael eu hadeiladu.

Rheoleiddio gorsafoedd pŵer niwclear

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio effeithiau safleoedd niwclear yn Lloegr ar bobl a'r amgylchedd drwy gyflwyno trwyddedau amgylcheddol sy'n cynnwys paratoi safleoedd, adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymgymryd â'r un rôl yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Swyddfa dros Reoli Niwclear, sy'n rheoleiddio agweddau diogelwch a diogeled ar safleoedd niwclear. Pan fyddwn yn defnyddio'r term 'rheoleiddwyr niwclear', rydym yn cyfeirio at y Swyddfa dros Reoli Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodedb o ddogfen benderfyniadau Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

Mae'r llywodraeth a'r diwydiant yn disgwyl efallai y bydd gorsafoedd pŵer o'r un dyluniad yn cael eu hadeiladu ar nifer o safleoedd a chael eu rheoli gan gwmnïau gweithredu gwahanol o bosib. Rydym felly wedi rhannu ein proses reoleiddio ar gyfer asesu a chaniatáu cam gweithredol gorsafoedd pŵer niwclear yn 2 ran.

Y cam cyntaf yw asesiad dylunio generig, lle'r ydym yn cynnal asesiadau o ddyluniadau ac, yn y pen draw, rydym yn llunio datganiad am dderbynioldeb pob dyluniad. Efallai ceir materion na fydd yr asesiad dylunio generig yn gallu mynd i'r afael â nhw. Nodir y rhain fel Canfyddiadau Materion ac Asesu Asesiad Dyluniad Generig, sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatganiad a gyhoeddir. Ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU, rydym ar y cam hwn nawr.

Problem Asesiad Dyluniad Generig yw problem sylweddol nad yw wedi cael ei datrys, ond y gellir ei datrys, ac mae angen cael ei datrys cyn dechrau adeiladu'r adweithydd. Rhaid i'r cwmni gyhoeddi 'cynllun datrys' gan nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r broblem. Rhaid i holl broblemau'r Asesiad Dyluniad Generig gael eu datrys hyd fodlonrwydd y rheoleiddwyr cyn cwblhau Asesiad Dyluniad Generig.

Problem Asesiad Dyluniad Generig yw problem sylweddol nad yw wedi cael ei datrys, ond y gellir ei datrys, ac mae angen cael ei datrys cyn dechrau adeiladu'r adweithydd.

Yn yr ail gam, ar ôl cynnal Asesiad Dyluniad Generig, rydym yn derbyn ceisiadau ar gyfer trwyddedau amgylcheddol ar gyfer safle penodol. Rydym yn ystyried yr holl waith rydym wedi'i wneud yn ystod yr Asesiad Dyluniad Generig, fel bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar broblemau sy'n benodol i safle, gan gynnwys sut mae'r gweithredwyr yn mynd i'r afael â Chanfyddiadau Asesu Asesiad Dyluniad Generig. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall cyn penderfynu cyflwyno trwyddedau gweithredol ar gyfer safle penodol.

Asesiad Dyluniad Generig

Proses ar y cyd yw Asesiad Dyluniad Generig rhwng y Swyddfa dros Reoli Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Golyga Asesiad Dyluniad Generig ein bod yn dechrau asesu derbynioldeb agweddau amgylcheddol ar ddyluniad cyn cyflwyno cais i adeiladu'r orsaf bŵer. Rydym yn gweithio gyda dylunwyr a gweithredwyr posib cyn gynted â phosib pan fo modd mynd i'r afael â phroblemau mewn modd effeithiol ac effeithlon cyn dechrau adeiladu.

Ceir nifer o gamau.

1. **Asesiad cychwynnol:** efallai y byddwn yn gofyn i'r Ymgeisydd am fwy o wybodaeth neu i newid y dyluniad.
2. **Asesiad manwl:** rydym yn llunio barn ragbaratoawl er mwyn ymgynghori arni.
3. **Ymgynghoriad:** rydym yn gofyn am farn ar ôl asesiad manwl.
4. **Adolygiad ôl-ymgynghori:** rydym yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad.
5. **Penderfyniad a datganiad:** rydym yn penderfynu cyhoeddi datganiad ai peidio o dderbynioldeb dylunio, datganiad dros dro o dderbynioldeb dylunio os oes unrhyw broblemau nad ydynt wedi'u datrys neu ddim datganiad o dderbynioldeb - dyma'r cam rydym ynddo ar hyn o bryd.

Mae Asesiad Dyluniad Generig yn seiliedig ar safle generig. Wrth asesu ceisiadau ar gyfer trwyddedau amgylcheddol, rydym yn defnyddio nodweddion y safle penodol lle cynigir ei adeiladu. Gall nodweddion penodol y safle fod yn wahanol i rai safle generig Asesiad Dyluniad Generig. Gallwch weld mwy o fanylion am ein proses Asesiad Dyluniad Generig yn ein [dogfen prosesau a gwybodaeth](#) (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2016a).

Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU


Ceir 3 chanlyniad posib ar gyfer Asesiad Dyluniad Generig.

- Rydym yn cyhoeddi datganiad o dderbynioldeb dyluniad os ydym yn fodlon â'r dyluniad.
- Os ydym yn fodlon ar y cyfan, rydym yn darparu datganiad dros dro o dderbynioldeb dyluniad sy'n nodi'r problemau y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy cyn i ni allu ystyried cyhoeddi datganiad llawn o dderbynioldeb dyluniad.
- Os nad ydym yn fodlon, nid ydym yn cyflwyno datganiad o dderbynioldeb dyluniad na datganiad dros dro o dderbynioldeb dyluniad.

Dyluniad Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

Mae amrywiaeth o fathau gwahanol o adweithyddion niwclear ym mhedwar ban byd, ac mae 400 ar waith ar hyn o bryd. Un o'r mathau mwyaf cyffredin yw'r adweithydd dŵr berw, a'r Adweithydd Dŵr Berw Uwch yw'r dyluniad diweddaraf sydd ar waith. Yn gallu cynhyrchu oddeutu 1,350 megawatt o drydan, sef digon i bweru mwy na 2 filiwn o gartrefi ar gyfartaledd, mae'r Adweithydd Dŵr Berw Uwch eisoes ar waith mewn mannau eraill yn y byd.

Ffigur 1. Darlun syml o'r Adweithydd Dŵr Berw Uwch



Llun trwy garedigrwydd Hitachi-GE

Mae Adweithwyr Dŵr Berw'n gweithio drwy drosglwyddo'r ager sydd wedi'i greu y tu mewn i'r adweithydd yn uniongyrchol i'r tyrbin. Mae hyn yn gwneud i'r tyrbin droi gan ysgogi generadur sy'n cynhyrchu drydan.

Mae mwy o wybodaeth am Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU ar gael ar [wefan Hitachi-GE](#)

Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU
Tudalen 6 o 14

Ein hasesiad

Cyflwynodd Hitachi-GE ei ddyluniad Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU ar gyfer Asesiad Dyluniad Generig ym mis Ionawr 2014. Gwnaethom gwblhau ein hasesiad cychwynnol a chyhoeddi ein hadroddiad ym mis Awst 2014 (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2014) Ers hynny, rydym wedi bod yn cynnal ein hasesiad manwl. Gwnaethom lunio'n canfyddiadau rhagbaratoawl ac ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Rhagfyr 2016 a 3 Mawrth 2017.

Rydym bellach yn cyflwyno'n casgliadau. Seiliwyd ein canfyddiadau terfynol ar y canlynol:

- fersiynau terfynol o gyflwyniad yr Asesiad Dyluniad Generig (a gyflwynwyd ar 31 Awst 2017)
- trafodaethau technegol a gynhaliwyd â Hitachi-GE
- ystyriaeth o'r ymatebion i'n hymgynghoriad
- ystyriaeth o sylwadau a gyflwynwyd i Hitachi-GE drwy'r wefan 'y broses sylwadau Asesiad Dyluniad Generig' a'r ymatebion iddi.

Rydym yn cyhoeddi 11 o adroddiadau asesu diweddar ac asesiad dos annibynnol ynghyd â'n dogfen benderfynu.

Ein hymgynghoriad

Rydym yn gweithio'n agored ac yn glir, yn destun cyfyngiadau masnachol a diogelwch sensitif. Rydym wedi gwneud yr asesiad hwn yn agored, yn glir ac yn ymgynghorol yn bwrpasol, oherwydd bod hyn yn helpu i hysbysu ein penderfyniad a magu hyder ynom ni a'r broses. Gwnaethom Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

ymgyngori ar ein canfyddiadau rhagbaratoawl, ar ôl cynnal ein hasesiad manwl hyd yn hyn, am 12 wythnos, o 12 Rhagfyr 2016 tan 3 Mawrth 2017 (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2016b).

Rydym yn hyderus ein bod wedi gwneud popeth roeddem wedi gallu ei wneud i ymgynghori'n gywir a bod yr ymgynghoriad hwn yn hygyrch i'r bobl a'r sefydliad y bwriadwyd ef ar eu cyfer a'i fod wedi'i dargedu'n glir. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd amser i gyfrannu a dod i'n digwyddiadau ymgynghori yng Nghymru a Lloegr.

Rhwng 2014 a 2016, gwnaethom weithio gyda [Sciencewise](#) i'n helpu i ddeall sut roedd y cyhoedd am gymryd rhan a bod yn rhan o ymgynghoriad ar ein hasesiad o ddyluniadau gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Gwnaeth y canfyddiadau o'r gwaith hwn, ynghyd â gwerthusiad ac ymchwil arall, hysbysu ein cynllun cyfathrebu a chynnwys ar gyfer ymgynghori ar Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU.

Mae ein hymgyngoriadau Asesiad Dylunio Generig hefyd yn cael eu harchwilio gan sefydliad annibynnol allanol. Caiff gwerthusiad o'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2018.

Ein penderfyniad ar ôl yr ymgynghoriad

Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, ein penderfyniad yw ein bod yn ystyried y byddai agweddau amgylcheddol y dyluniad yn dderbyniol dan weithrediadau arferol. Felly, gallwn gyhoeddi datganiad o dderbynioldeb dyluniad ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU.

Nid oedd unrhyw broblemau Asesiad Dyluniad Generig heb eu datrys.

Rydym wedi nodi 17 o ganfyddiadau asesu yn yr adroddiadau asesu. Ceir crynodeb o'r rhain yn ein dogfen benderfynu hefyd yn ogystal ag ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Byddwn yn disgwyl i weithredwr yn y dyfodol fynd i'r afael â'r rhain yng ngham priodol oes yr orsaf.

Mae ein dogfen benderfynu lawn ynghyd ag adroddiadau asesu diweddar ar gael ar wefan [GOV.UK](#)

Fel arall, gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio gda@environment-agency.gov.uk.

Y Camau Nesaf

Mae Horizon Nuclear Power yn bwriadu adeiladu Adweithydd Dŵr Berw Uwch ar ei safleoedd yn Wylfa Newydd ar Ynys Môn a Oldbury-on-Severn yn ne Swydd Gaerloyw..

Mae'n rhaid i unrhyw gwmni sydd am adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd gael nifer o gydsyniadau safle penodol pwysig gan reoleiddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys trwydded safle niwclear a chysyniadau perthnasol gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear a thrwyddedau amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru a chaniatâd cynllunio gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Trwyddedau amgylcheddol

Bydd Horizon Nuclear Power yn cyflwyno cais am amrywiaeth o drwyddedau amgylcheddol sy'n ymwneud ag adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear ac ar gyfer 'datblygiadau cysylltiedig' megis llety i'r gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau ar gyfer gollyngiadau ymbelydrol, gollyngiadau dŵr oeri a gweithredu gwaith taniad, megis generaduron disel brys.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu a ddylid cyflwyno trwyddedau ac, os felly, pa amodau ddylai fod yn gymwys. Wrth wneud penderfyniadau am Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

geisiadau trwydded safle penodol, bydd y rheoleiddwyr yn ystyried y gwaith a wnaed yn ystod yr asesiad Dyluniad Generig. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall cyn penderfynu cyflwyno trwyddedau gweithredol ar gyfer safle penodol.

Trwydded safle niwclear

Mae'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yn gyfrifol am drwyddedu safleoedd newydd arfaethedig ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear. Rhaid i unrhyw sefydliad sydd am gynnal gweithgarwch niwclear rhagnodedig gyflwyno cais am drwydded safle niwclear a'i dderbyn cyn dechrau adeiladu gwaith niwclear diogel. Mae caniatáu safle niwclear yn gam sylweddol, ond, ar ei ben ei hun, nid yw'n rhoi caniatâd i ddechrau adeiladu gwaith niwclear. Mae hynny'n gofyn am ganiatâd rheoleiddiol gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear.

Caniatâd cynllunio

Mae angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar orsaf bŵer niwclear newydd, sy'n derbyn argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Canfyddiadau Aseu

Ceir crynodeb isod o'n Canfyddiadau Aseu, mae mwy o wybodaeth am gyd-destun a disgwyliadau wedi'i chynnwys yn ein hadroddiadau aseu. Dylid darllen y Canfyddiadau Aseu hyn ar y cyd â'r wybodaeth gefnogol sydd yn ein dogfen benderfynu a'n hadroddiadau aseu.

Rhif y Canfyddiadau Aseu	Canfyddiad Aseu
Canfyddiad Aseu 01 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr yn y dyfodol yn nodi manylion sut mae'r egwyddor agosrwydd wedi cael ei defnyddio wrth arddangos y technegau gorau sydd ar gael ar gyfer gwastraff solet a hylif llosgadwy cyn iddo ddechrau comisiynu Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU yn weithredol.
Canfyddiad Aseu 02 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Os yw'n briodol, bydd gweithredwr posib yn llunio asesiad o'r technegau gorau posib sydd ar gael sy'n ymdrin â'i holl safleoedd, gan nodi graddfeydd economi ac effeithlonrwydd arall wrth waredu gwastraff solet a hylif llosgadwy ar draws ei holl safleoedd cyn iddo ddechrau comisiynu Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU yn weithredol.
Canfyddiad Aseu 03 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr yn y dyfodol yn nodi manylion sut bydd Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU yn cael ei weithredu mewn modd sy'n cynrychioli'r technegau gorau sydd ar gael, gan fynd i'r afael yn benodol â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• dewis tanwydd• tanwydd a rheoli craidd• osgoi methiant rhoden reoli mewn sefyllfaoedd atal pŵer• ystyried holl foddau a champau gweithredol arferol o gylch bywyd adweithydd• rheoli cemeg dŵr• dewis resin dihalwynydd ar gyfer systemau rheoli gwastraff hylif
Canfyddiad Aseu 04 -	Bydd gweithredwr posib yn adolygu ymarferoldeb technegau diddymu carbon-14 cyn gweithredu.

Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Aseu Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

Rhif y Canfyddiadau Aseu	Canfyddiad Aseu
Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	
Canfyddiad Aseu 05 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn aseu rhannu carbon-14 rhwng ffrydiau gwastraff nwyol, dyfrllyd a solet, yn ystod gweithrediadau cychwynnol.
Canfyddiad Aseu 06 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn mynd i'r afael â'r 15 cam gweithredu datblygu fel a nodir gan Hitachi-GE yn y cyhoeddiad 'Arddangosiad o'r technegau gorau sydd ar gael' - GA91-9901-0023-00001 Diwygiad. G. Awst 2017.
Canfyddiad Aseu 07 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd darparwr posib yn darparu diffiniad â thystiolaeth o'r ffactorau dadheintio a fydd yn debygol o gael eu cyflawni ar gyfer triniaeth garthffrwd ddyfrllyd cyn gweithredu ac yna cymharu'r rhain â'r ffactorau dadheintio go iawn a gyflawnir yn ystod y gweithredu. Dylai'r gwahaniaethau mewn ffactorau dadheintio disgwylidig a go iawn gael eu hesbonio.
Canfyddiad Aseu 08 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn aseu ffurfiant rhywogaethau cemegol ymbelydredd mewn gollyngiadau dyfrllyd. Bydd yn ystyried goblygiadau hyn ar gyfer yr amgylchedd fel y dengys bod gollyngiadau'n cynrychioli'r technegau gorau sydd ar gael.
Canfyddiad Aseu 09 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib, cyn caffael, yn darparu dyluniadau manwl ar gyfer rheoli a storio gwastraff ymbelydrol a chyfleusterau cyflyru yr ymdriniwyd â hwy ar lefel gysyniadol yn ystod yr asesiad dylunio generig, a dangos sut mae'r rhain yn cynrychioli'r technegau gorau sydd ar gael.
Canfyddiad Aseu 10 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	<p>Bydd gweithredwr posib yn dangos ei fod yn mwyafu rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol solet o Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU, gan fynd i'r afael yn benodol â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflyru deilliant gwastraff gweithgarwch uwch i sicrhau tafladwyedd • dewis llwybrau gwaredu gwastraff wrth y ffin gwastraff gweithgarwch isel/gwastraff gweithgarwch uchel • rheoli gweddillion tanwydd niwclear ac unrhyw wastraff eilaidd cysylltiedig i sicrhau tafladwyedd • dewis llwybrau gwaredu ar gyfer gwastraff gweithgarwch isel
Canfyddiad Aseu 11 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn mynd i'r afael â'r 12 cam gweithredu datblygu a nodwyd yn y cyhoeddiad 'Ymagwedd at samplu a monitro' - GA91-9901-0029-00001 Diwygiad H, Awst 2017.
Canfyddiadau Aseu 12 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn ymgymryd â phroffion i benderfynu ar broffil crynodeb gronynnau ac a oes angen mewnwilyddion aml-chwistrell ar gyfer y prif samplu.

Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Aseu Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU
Tudalen 10 o 14

Rhif y Canfyddiadau Aseu	Canfyddiad Aseu
Canfyddiad Aseu 13 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn dangos, cyn comisiynu adweithydd, fod ffurfwedd derfynol llinellau samplu a dyluniad a safle'r ystafell fonitro wedi cael eu mwyaflu.
Canfyddiad Aseu 14 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn dangos, cyn caffael, fod cyfarpar samplu a monitro penodol ar gyfer penderfynu ar y gollyngiadau'n cynrychioli'r technegau gorau sydd ar gael ac yn galluogi bodloni lefelau datgelu argymelledig yr UE.
Canfyddiad Aseu 15 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn dangos bod y systemau a'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer monitro a dedfrydu gwastraff solet yn cynrychioli'r technegau gorau sydd ar gael.
Canfyddiad Aseu 16 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn nodweddu'r holl ffrydiau gwastraff dyfrllyd yn briodol yn ei gais am drwydded gweithgarwch gollwng dŵr. Bydd hyn yn cynnwys nodi'r holl halogyddion sylweddol (gan gynnwys bywleiddiaid, glanedyddion a metelau), y crynodiadau a'r symiau sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd.
Canfyddiad Aseu 17 - Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU	Bydd gweithredwr posib yn nodi isafswm paramedrau perfformiad y gwaith hylosgi pan fydd yn cyflwyno cais am drwydded gweithgarwch hylosgi.

Cyfeiriadau

Cyfeirnod	Manylion
Asiantaeth yr Amgylchedd, 2016a	Dogfen proses a gwybodaeth ar gyfer aseu generig dyluniadau gwaith pŵer niwclear ymgeisiol, Fersiwn 3, Asiantaeth yr Amgylchedd, Hydref 2016. https://www.gov.uk/government/publications/assessment-of-candidate-nuclear-power-plant-designs
Asiantaeth yr Amgylchedd, 2016b	Dogfen ymgynghori: Aseiad dyluniad generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd.

Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru:

Crynodeb o ddogfen benderfyniadau Aseiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU
Tudalen 11 o 14

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/consultations/our-own-consultations-closed/assessing-new-nuclear-power-station-designs/?lang=en>

Asiantaeth yr
Amgylchedd, 2014

Adroddiad ar asesiad cychwynnol Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU
Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd

<https://www.gov.uk/government/publications/discharges-from-boiling-water-reactors-review-of-discharge-data>

Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru 0300 065 3000 (dydd Llun-dydd Gwener, 9am-5pm)

Mae ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn ymdrin â phopeth o ymholiadau cyffredinol i gwestiynau mwy cymhleth ynghylch cofrestru ar gyfer trwyddedau amrywiol.

E-bost

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Drwy'r post

Cyfoeth Naturiol Cymru d/o y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid, Tŷ Cambria, 29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

Llinell gymorth os bydd digwyddiad 0800 80 70 60 (gwasanaeth 24 awr)

Dylech ddefnyddio'r llinell gymorth os bydd digwyddiad i adrodd am ddigwyddiadau megis llygredd. Gallwch weld rhestr gynhwysfawr o'r digwyddiadau rydym yn ymdrin â nhw ar ein tudalen 'adrodd am ddigwyddiad'.

Llinell Rhybuddion Llifogydd 0345 988 1188 (gwasanaeth 24 awr)

Cysylltwch â'r Llinell Rhybuddion Llifogydd am fwy o wybodaeth am lifogydd. Type Talk y Llinell Rhybuddion Llifogydd: 0345 602 6340 (ar gyfer cwsmeriaid trwm eu clyw).

Hoffech chi gael mwy o wybodaeth amdanon ni neu'ch amgylchedd?

Yna ffoniwch

03708 506 506 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am tan 6pm)

E-bostiwch

enquiries@environment-agency.gov.uk

Neu ewch i'n gwefan

www.gov.uk/environment-agency

Llinell Ddigwyddiadau 0800 807060 (gwasanaeth 24 awr)

Llinell Rhybuddion Llifogydd 0345 988 1188 (gwasanaeth 24 awr)

Gwybodaeth am ffioedd galw (www.gov.uk/call-charges)

Yr amgylchedd yn gyntaf - Ydych chi'n gweld hwn ar y sgrin? Ystyriwch yr amgylchedd ac argraffwch os oes wir angen. Os ydych yn darllen copi papur, cofiwch aildefnyddio neu ailgylchu os yw'n bosib.